Hawdd ei Ddeall

# Gweithio mewn Genomeg yng Nghymru

## Ein cynllun i gael gweithlu cryf i ddarparu gwasanaethau genomig rhwng 2025 a 2028



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** a **Phartneriaeth Genomeg Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Gweithlu Strategol Genomeg**'.

**Tachwedd 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Partneriaeth Genomeg Cymru** a **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.aagic.gig.cymru

**E-bost:** heiw.genomics@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 0330 058 5005

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


**Am y cynllun yma** .......... **4**

**Mwy am Genomeg** .......... **6**

Cael mwy o weithwyr genomeg yng Nghymru .......... 13

Sut rydyn ni wedi ysgrifennu'r cynllun yma .......... 14

Gweithwyr mewn genomeg .......... 15

**Gweithwyr eraill y GIG** .......... **25**

**Y dyfodol** .......... **27**

**Geiriau Anodd** .......... **28**





# Am y cynllun yma

Partneriaeth Genomeg Cymru
Genomics Partnership Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Rydyn ni yn **Bartneriaeth Genomeg Cymru** ac **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**.




Rydyn ni wedi ysgrifennu'r cynllun yma i wneud yn siŵr:

- Bod gennym ni ddigon o staff yn gweithio mewn **genomeg** wrth i'r galw dyfu.
- Bod gan ein staff yr hyfforddiant a'r sgiliau cywir.
- Bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.






Mae **genomeg** yn meddwl sut mae **genynnau** yn gweithio a sut rydyn ni'n edrych arnyn nhw.

**Genynnau** ydy'r blociau adeiladu y tu mewn i'n cyrff.


Maen nhw'n penderfynu pethau fel lliw ein gwallt, lliw llygaid a thaldra.



Mae **genomeg** yn newid y ffordd rydyn ni'n meddwl am ofal iechyd.



Mae’n newid y ffordd rydyn ni’n gwneud diagnosis, trin a rheoli clefydau.



Mae **genomeg** wedi tyfu llawer yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Mae’n helpu pobl yng Nghymru yn barod.



Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr bod gan Gymru y gweithwyr mae ei hangen drwy weithio gyda GIG Cymru.



Rydyn ni angen staff sydd â llawer o sgiliau gwahanol. Mae hyn yn meddwl rolau gwyddoniaeth, meddygaeth a chymorth.



Fe fydd angen hyfforddiant ar staff hefyd wrth i ni ddysgu mwy am **genomeg**.




Mae 33 o gamau gweithredu yn y cynllun yma ac mae’n edrych ar beth sydd angen ei wneud i wneud yn siŵr bod hyn i gyd yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf.

# Mwy am Genomeg



Mae **genomeg** yn bwysig iawn ar gyfer gofal iechyd oherwydd mae'n gallu:



- Edrych ar **enynnau'r** person i weld pa driniaeth maen nhw ei angen.



- Helpu i stopio problemau iechyd.




- Helpu i drin problemau iechyd.



- Gwella iechyd ac ansawdd bywyd.

## Mathau o **genomeg**:

### Genomeg dynol




Mae hyn yn edrych ar **enynnau** pobl  a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.



Mae hefyd yn edrych ar sut mae'r byd o'n cwmpas yn gallu effeithio ar ein **genynnau**.

### Genomeg canser




Mae hyn yn edrych ar sut  mae **genynnau** rhywun yn gallu cynyddu eu risg o gael canser.



Mae'n ein dysgu am  wybodaeth **enetig** y canser ei hun.

## Ymateb meddyginiaeth



Rydyn ni'n gallu dysgu sut mae **genynnau** person yn ymateb i feddyginiaethau.



Mae hyn yn gallu helpu i stopio adweithiau gwael, a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y feddyginiaeth fwyaf effeithiol ar eu cyfer.

## Genomeg clefydau prin




Mae hyn yn edrych ar glefydau prin sy'n dechrau yn y **genynnau**. Mae'n gallu ein helpu i ddod o hyd i broblemau yn gynnar a'u trin.

## Genomeg pathogen




Mae hyn yn edrych ar enynnau'r pethau sy'n achosi afiechyd. Er enghraifft, roedd hyn yn bwysig iawn yn ystod COVID-19.

## Sut mae **genomeg** yn helpu mewn gofal iechyd



- Yn gwella amodau diagnosis.
- Yn cefnogi triniaeth gynnar.



- Yn gwella opsiynau triniaeth.
- Yn gwella meddyginiaethau.



- Yn lleihau adweithiau drwg i feddyginiaethau.
- Yn ein helpu ni i ddeall peryglon iechyd yn well.



- Yn helpu gyda chynllunio i gael babi.
- Mae'n gwneud iechyd yn well i bawb.



Er mwyn cael y canlyniadau gorau, mae angen gwneud mwy o brofion **genomeg** gan staff mewn gwahanol rolau. Nid dim ond y rhai sy'n gweithio mewn **genomeg**.

## Sut y bydd **genomeg** yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol



Mae **genomeg** yn datblygu'n gyflym iawn. Mae'n debygol o effeithio ar sawl maes gofal iechyd, gan gynnwys:



- Mwy o brofion **genomig** mewn gofal cleifion.
- Astudiaethau ar sut mae clefydau'n gallu effeithio ar boblogaethau.
- Sgrinio babanod newydd-anedig.



- Gwell dealltwriaeth o glefydau.
- Mathau newydd o driniaeth, fel therapi **genynnau**.

## Y gweithwyr



Gan fod angen mwy o brofion bydd mwy o alw am staff.

Mae angen llawer o weithwyr mewn **genomeg**, gan gynnwys:



- **Staff labordy technegol** – maent yn gweithio gyda gwaed a samplau eraill i edrych ar y **genynnau**.
- **Biowybodegwyr** – maent yn defnyddio cyfrifiaduron i ddod o hyd i newidiadau mewn **genynnau**.



- **Gwyddonwyr clinigol** - maen nhw'n edrych ar ganlyniadau profion ac yn ceisio deall beth maen nhw'n ei feddwl.
- **Cydlynwyr hanes teulu** - maen nhw'n casglu gwybodaeth deuluol a meddygol gan gleifion.



- **Cwnselwyr genetig** - maen nhw'n rhoi cyngor a chefnogaeth i gleifion am brofion **genomeg**.
- **Genetegyddion clinigol** – maen nhw'n rheoli cleifion.
- **Rolau eraill** - gan gynnwys ystod eang o staff gweinyddol a staff eraill.



Mae angen llawer o hyfforddiant a sgiliau ar rai o'r rolau yma mewn gwyddoniaeth, mathemateg, cyfrifiadureg a meysydd eraill.



Fe fydd angen profion mewn llawer o adrannau'r GIG, nid yn yr adran **genomeg** yn unig.



Fe fydd angen i weithwyr eraill y GIG wybod am **genomeg** ac iechyd.

# Cael mwy o weithwyr genomeg yng Nghymru



Mae profion yn gallu bod yn anodd eu gwneud ac mae rhai yn mynd yn fwy anodd.



Wrth i **genomeg** barhau i ddatblygu, mae'n anodd gwybod beth fydd ei angen yn y dyfodol.



Mae **deallusrwydd artiffisial** yn gallu helpu gyda rhywfaint o'r gwaith.

**Deallusrwydd artiffisial** ydy pan fydd peiriannau, fel cyfrifiaduron, yn gallu cael eu gwneud i feddwl a dysgu fel pobl. Maen nhw'n gallu datrys problemau a gwneud dewisiadau.



Mae angen i ni benderfynu faint o staff rydyn ni'n feddwl fydd eu hangen yn y dyfodol. Mae hyn yn anodd oherwydd mae llawer o bethau dydyn ni ddim yn ei wybod.

## Sut rydyn ni wedi ysgrifennu'r cynllun yma



Oherwydd bod cymaint o wasanaethau a staff yn y cynllun yma, roedd yn bwysig gweithio arno gydag eraill.



Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith i wneud yn siŵr ein bod yn clywed gan gymaint o staff â phosibl i glywed beth maen nhw'n feddwl.



Rydyn ni wedi gwneud llawer o ymchwil. Fe wnaethon ni edrych ar sut le oedd ein gweithlu ar hyn o bryd. Ac edrych ar sut y bydd angen i wasanaethau **genomeg** fod yn y dyfodol.




Fe wnaethon ni glywed syniadau gan bobl er mwyn ysgrifennu'r 33 camau gweithredu ar gyfer y cynllun yma.




Mae'r camau gweithredu yn bwysig i **bawb** sydd â rôl wrth ddarparu gwasanaethau **genomeg**.


## Gweithwyr mewn genomeg



Rydyn ni angen gweithwyr a'r math cywir o swyddi



Mae swyddi ar gael nawr, yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae hyn yn meddwl bod yna gystadleuaeth ar gyfer staff.





Rydyn ni yn gwneud cynllun hyfforddi bob blwyddyn. Mae hyn yn ein helpu i weld pa grwpiau o staff sydd eu hangen, fel gwyddonwyr a staff labordy.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod staff yn cael yr hyfforddiant a'r cyllid cywir pan fyddan nhw yn dechrau'r swyddi yma.



Fe fyddwn ni hefyd yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i helpu i gadw staff.




**Fe fydd y 33 o gamau gweithredu yn ein helpu i gyflawni ein nodau o dan 7 maes gwaith pwysig:**

**1. Gweithlu iach, brwdfrydig ac ymrwymedig**



Mae hyn yn meddwl tîm o staff sy’n hapus yn eu swyddi.

Roedd staff yn dweud fod ganddyn nhw ormod o waith. Mae hyn yn achosi straen a phobl i ffwrdd o’r gwaith yn sâl.



Dydy llawer o swyddi  ddim yn cael eu llenwi.

Mae llawer o staff angen hyfforddiant a chefnogaeth. Mae hyn yn rhoi pwysau ar eraill.



Fel arfer mae angen i staff weithio ar y safle yn hytrach nag o’u cartrefi. Mae hyn yn gallu newid wrth i dechnoleg ddigidol newid.



Mae’n bwysig meddwl am iechyd a lles staff. Mae hyn yn effeithio ar ba mor dda maen nhw’n gwneud eu gwaith.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**



- Rhoi mwy o gefnogaeth i weithio gartref ac opsiynau gweithio mwy hyblyg.

## 2. Denu a recriwtio



Mae hyn yn meddwl dod o hyd i staff sydd eisiau gwneud y swyddi ac aros ynddyn nhw.




Mae gweithio ym maes **genomeg** angen staff sydd â sgiliau penodol iawn.



Mae'n bwysig siarad â phobl am fanteision gweithio mewn **genomeg** yng Nghymru.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am swyddi sy'n gweithio ym maes **genomeg** yng Nghymru. Yn enwedig pobl ifanc.



Efallai hefyd bod gwahanol ffyrdd o ddechrau gyrfa mewn **genomeg**, fel **prentisiaeth**.

**Prentisiaeth** ydy pan fydd rhywun yn gweithio ac yn dysgu ar yr un pryd.



Mae staff wedi dweud nad oes digon o gyfleoedd i ddatblygu yn eu gyrfa yn aml.



Mae gwaith wedi'i wneud i newid hyn. Ond mae hyn yn dal i fod yn broblem mewn sawl rhan o'r GIG.



Mae angen i ni wneud mwy o waith i gefnogi staff yn eu datblygiad gyrfaol.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**




- Hyrwyddo gyrfaoedd mewn **genomeg** ar y wefan Careersville.

- Mynd i ffeiriau gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau i siarad am  yrfaoedd **genomeg**.



- Gofyn i bobl sydd wedi gadael eu gyrfaoedd mewn **genomeg** ddod yn ôl.

## 3. Addysg a hyfforddiant rhagorol



Rhaid i staff sy’n gweithio mewn llawer o rolau arbennig yn y GIG gael eu cofrestru. Mae hyn yn meddwl eu bod yn cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod wedi’u hyfforddi’n dda.




Mae angen gwneud gwaith i wneud hyfforddiant a chofrestru’n gliriach ac yn haws cael mynediad ato.




Mae rhywfaint o hyfforddiant yn gallu cael ei wneud ar-lein.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**



- Rhoi cymorth i staff gyda chofrestru.



- Dangos i'r staff y llwybrau hyfforddi i fod yn gymwys ar gyfer gwahanol swyddi **genomeg**. Gwneud hyn yn haws i'w ddeall.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael mynediad da at hyfforddiant.

- Gwneud yn siŵr bod hyfforddiant o ansawdd uchel.



- Gwella hyfforddiant fel ei fod yn achosi llai o bwysau.




- Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod am unrhyw arian maen nhw'n gallu ei gael i helpu gyda chofrestru.

## 4. Modelau llif gwaith di-dor



Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod timau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae llawer o swyddi mewn **genomeg** yn benodol iawn felly dydy pawb ddim yn eu deall. Mae hyn yn gwneud cefnogaeth yn galetach.



Pe bai'r holl staff wedi'u cofrestru byddai'n haws gwybod beth ydy sgiliau pawb, ac i bobl wneud tasgau gwahanol.





Pan fydd staff yn deall beth mae eu tîm yn ei wneud, mae'n eu helpu i gydweithio'n well.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**



- Gweithio gyda sefydliadau eraill i gynllunio sut mae gweithwyr mewn swyddi eraill yn gallu helpu mewn **genomeg**.



- Ei gwneud yn haws i staff weld pa swyddi eraill maen nhw'n gallu eu cael mewn **genomeg** yn eu gyrfaoedd.

- Gwneud yn siŵr bod gwyddonwyr sydd â hyfforddiant gwahanol yn gallu gweithio mewn **genomeg**.

**5. Cyflenwad a siâp y gweithlu**



Mae hyn yn meddwl edrych ar faint o staff sydd eu hangen a pha swyddi.

Mae'n anodd gwybod faint o swyddi fydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r pethau sy'n gallu effeithio ar hyn yn cynnwys:




- Faint o adrannau iechyd sy'n cynnig profion **genynnau**.




- Pa mor gyflym mae ymchwil yn gwneud gwasanaethau newydd.

Mae'n bwysig dod o hyd i'r cydbwysedd cywir, ond mae hyn yn anodd. Mae'n bwysig bod Cymru'n gwneud llawer o ymchwil mewn **genomeg**.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**



- Edrych ar waith sydd yn cael ei wneud yn GIG Lloegr i helpu i ddarganfod faint o staff sydd eu hangen.



- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddysgu mwy am y gweithwyr sydd eu hangen.

- Gwneud yn siŵr bod staff sy'n gallu helpu gydag ymchwil.

## 6. Arweinyddiaeth ac Olyniaeth



Mae hyn yn meddwl rheoli. Roedd staff yn dweud bod cynnydd wedi bod yn nifer y swyddi rheolwyr. Ond mae hyn yn meddwl bod llai o bobl yn gwneud swyddi gwyddonol.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**



- Hyrwyddo rhaglenni hyfforddiant rheoli i helpu i wneud arweinwyr y dyfodol.



- Gwneud yn siŵr bod datblygu rheolaeth yn rhan bwysig o'r gwasanaeth **genomeg**.

## 7. Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol



Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod staff yn gallu gweithio gyda thechnoleg nawr ac wrth iddo ddatblygu.




Fe fydd hyn yn meddwl gweithio ar sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a dilyn deddfau ynghylch cyfrinachedd.

**Er mwyn gwneud hyn yn well, fe fyddwn ni yn:**





- Deall y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithwyr ac edrych ar swyddi a hyfforddiant.




- Cadw llygad ar dechnoleg a sut mae'n gallu helpu gweithwyr.

# Gweithwyr eraill y GIG



Mae meddygaeth **genomig** yn tyfu'n gyflym fel maes gofal iechyd.



Fe fydd angen llawer mwy o brofion **genomeg** ar gyfer cleifion mewn sawl maes iechyd.



Mae hyn yn meddwl y bydd angen hyfforddiant ar fwy o staff iechyd mewn  profion **genomeg**. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gweithio'n uniongyrchol mewn **genomeg**.




Mae angen mwy o hyfforddiant i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar staff iechyd.




Fe fydd angen hyfforddiant rheolaidd ar staff hefyd oherwydd  bod **genomeg** yn datblygu'n gyflym.



Mae'n bwysig gweithio'n agos gyda staff sy'n gweithio mewn **genomeg**. Rydyn ni angen eu cyngor i ddatblygu swyddi newydd.

**Rhai o'r pethau y byddwn yn eu gwneud ydy:**



- Edrych ar yr hyfforddiant sydd ar gael a gweld a oes angen iddo newid.

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o hyfforddi staff.



- Dysgu ar-lein i gefnogi staff.

- Rhoi gwybodaeth ar-lein i gleifion.



- Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddod o hyd i bobl i arwain ar ddatblygiad staff.

# Y dyfodol



Mae **genomeg** yn parhau i newid.



Fe fyddwn ni yn parhau i edrych ar beth rydyn ni ei angen ar gyfer **genomeg** yn y GIG.



Fe fyddwn ni yn newid y cynllun yma pan fydd angen.

# Geiriau Anodd

## Deallusrwydd artiffisial

Deallusrwydd artiffisial ydy pan fydd peiriannau, fel cyfrifiaduron, yn gallu cael eu gwneud i feddwl a dysgu fel pobl. Maen nhw'n gallu datrys problemau a gwneud dewisiadau.

## Genynnau

Genynnau ydy'r cyfarwyddiadau y tu mewn i'n cyrff. Maen nhw'n penderfynu pethau fel lliw ein gwallt, lliw llygaid ac uchder.

## Genomeg

Mae genomeg yn meddwl edrych ar enynnau a sut maen nhw'n gweithio.

## Prentisiaeth

Prentisiaeth  ydy pan fydd rhywun yn gweithio ac yn dysgu ar yr un pryd.